# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr. J. Cotterell (Cadeirydd); |
| | Aelodau Lleyg<br>Mr. H. Gray Morris;<br>Mrs Pamela Moore;<br>Ms Sue Morris;<br>Yr Athro R. Grove White. |
| | Yn cynrychioli'r Cyngor Sir |
| | Y Cynghorydd John Arwel Roberts;<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams. |
| | Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned |
| | Y Cynghorydd Raymond Evans |
| **WRTH LAW:** | Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro (RMJ); |
| | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro (RJ)<br>Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu (CE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (HR)<br>Prif Swyddog Tai (KR)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Ms Sue Morris, Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes |

---

1

**2**

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod na Swyddog.

Dywedodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ei fod ar hyn o bryd yn gweithredu fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ond cafod gyngor na fyddai'n rhaid iddo ddatgan diddordeb o dan eitem 3 ar y rhaglen.

**2 POLISI DYRANNU TAI TACHWEDD 2007**

Cyflwynwyd i'w ystyried - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf i'r Pwyllgor Trosolwg Polisi Addysg, Iechyd a Lles lle y penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai ymwneud yr aelodau gyda dyrannu tai Cyngor gael ei ddileu gyda'r amod bod yr Aelod Lleol yn cael ei hysbysu am y dyraniad unwaith yr oedd wedi'i wneud. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, fe gafwyd cyngor gan y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol yn dweud y byddai rhannu'r wybodaeth hon yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 ac y byddai caniatáu i'r aelodau gymryd rhan yn y broses ddyrannu yn groes i'r Ddeddf honno.

Roedd Mrs Pamela Moore yn cymeradwyo'r dull gweithredu hwn ac roedd y Cynghorydd Ieuan Williams yn credu mai dyma oedd y ffordd orau i symud ymlaen â phethau.

**PENDERFYNWYD -**

i. **Cymeradwyo'r cynnig i ddileu'r arfer o Aelodau'n cymryd rhan yn y broses o ddyrannu tai.**

ii. **peidio â chefnogi argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg Polisi Addysg, Iechyd a Lles bod Aelodau'n derbyn gwybodaeth am y person/au gafodd dy yn eu ward gan ei fod yn groes i'r egwyddorion geir yn y Ddeddf Diogelu Data 1998;**

iii. **bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu'n ffurfiol mor fuan ag sy'n bosibl.**

**3 DELIO GYDA CHEISIADAU CYNLLUNIO CYNGHORWYR A SWYDDOGION**

Cyflwynwyd ac ystyriwyd - adroddiad gan Gyfreithiwr y Swyddog Monitro ynghyd â chopi o adroddiad gyflwynwyd yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grwp ar 23 Rhagfyr 2009 mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad wedi'i seilio ar adroddiad cychwynnol ganddo ef ei hun a Phennaeth y Gwasanaethau Cynllunio. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r arfer bresennol ar Ynys Môn mewn perthynas â delio gyda cheisiadau cynllunio Cynghorwyr a Swyddogion. Aethpwyd i'r afael a'r mater hwn oherwydd pryderon gan y cyhoedd a chwynion wnaed i'r Swyddfa Archwilio ynglyn â'r gweithdrefnau. Roedd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol am dynu sylw'r Aelodau at y ffaith bod gan Ynys Môn y drefn fwyaf llym yng Nghymru lle bo pob un cais o'r fath yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i'w benderfynu. At hynny, byddai yntau fel y Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr i'r Adran / Pwyllgor Cynllunio yn adolygu'r ffeiliau cais er mwyn sicrhau bod y prosesau iawn wedi'u dilyn.

Nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi manylion am y nifer o gwynion oedd wedi'u derbyn nac am natur y cwynion. Nid oedd y mater wedi'i godi chwaith yn ystod sesiynnau "Hawl i Holi'r" Cyngor ac nid oedd yr Ombwdsmon wedi derbyn unrhyw gwynion swyddogol ynglyn â'r mater tros y 5 mlynedd diwethaf.

Roedd gwahanol opsiynau ar gyfer newid y ffordd o ddelio gyda cheisiadau o'r fath wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad i'r Pwyllgor ynghyd â manteision ac anfanteision pob un. Roedd y Swyddog yn credu mai'r cwestiwn oedd angen ei ystyried oedd - a fyddai unrhyw newid yn debygol o wella dirnadaeth resymol y cyhoedd yn hytrach na barn lai rhesymol un fyddai'n cymryd rhan yn y broses.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud argymhellion yn ei adroddiad ar y Gwasanaeth Cynllunio ac fe ofynnwyd i Reolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ystyried rhai o'r argymhellion hyn yng nghyd-destun y Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai unrhyw newidiadau angen gweld newid hefyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac felly byddai'n rhaid cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Gwaith yn y lle cyntaf ac wedi hynny i'r Cyngor Sir.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr. R. Grove White, cadarnhaodd y Swyddog bod y Swyddog Monitro'n credu bod y drefn bresennol yn gweithio'n foddhaol. Cadarnhaodd bod yr holl ffeiliau ar gael iddo ef yn electronig a bod hynny'n galluogi iddo archwilio'r holl ddogfennau a chadarnhau ei fod yn fodlon gyda'r broses trwy e-bost, neu fel arall wneud unrhyw sylwadau y byddai'n dymuno eu gwneud trwy e-bost i'r Swyddogion Cynllunio. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw ymyrraeth annerbyniol o du'r Aelodau na'r Swyddogion ac nad oedd ganddo unrhyw bryderon gyda pharhau materion fel ag y maent. Nid oedd yn credu bod yna unrhyw sail resymol tros fynd â'r mater ymhellach a chadarnhaodd bod y system bresennol yn un gadarn ac yn effeithiol.

Dywedodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts ei fod yn tybio bod Cyngor Ynys Môn yn un o'r Cynghorau sy'n cael ei archwilio fwyaf yng Nghymru ac y dylid llongyfarch y Cyngor ar ei ddulliau hunan-reoleiddio. Roedd yn credu bod Cynghorwyr a Swyddogion yn haeddu'r un tegwch ag aelodau'r cyhoedd pan fyddant yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod y Pwyllgor Cynllunio yn fforwm agored a bod ffeiliau cynllunio'n agored i'w sgriwtineiddio. Cadarnhaodd wrth yr Aelodau bod y broses yn cynnwys Aelodau ac aelodau penodol o'r Staff yn cynnwys perthnasau agos penodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd y Swyddog eglurhad ynglyn â materion wrth gefn. Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams nad oes unrhyw dystiolaeth i ddweud nad yw'r system bresennol yn gweithio'n iawn, a gweithdrefnau Ynys Môn yw'r mwyaf tynn yng Nghymru, yn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cyfarfod â'r cyfarwyddyd LOA diweddaraf, ac felly nid oedd yn credu y gellid gwella'r broses.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno nad oes unrhyw angen i ddiwygio'r gweithdrefnau presennol yng nghyswllt prosesu ceisiadau cynllunio gan Cynghorwyr a staff.**

## 4 ADOLYGU RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2010/11

Cyflwynwyd ac ystyriwyd - adroddiad gan Gyfreithiwr y Swyddog Monitro ynglyn ag adolygu'r gwaith a wnaed a'r gwaith sydd ar ôl yn cynnwys amserlenu.

Cyflwynodd y Swyddog ei adroddiad ar y Rhaglen Waith, y gwaith cefndirol i hynny oedd wedi cychwyn fis Gorffennaf 2009 ac a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 4 Mawrth 2010.

Roedd un agwedd o'r Rhaglen Waith yn ymwneud ag esblygiad y Cynllun Datblygu Aelodau. Roedd Gweithgor ar y Cyd wedi'i sefydlu i asesu, i fonitro ac i adolygu'r Cynllun Datblygu Aelodau wrth iddo esblygu.

Roedd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro am ddwyn sylw'r aelodau hefyd at y golofn ychwanegol yn y Rhaglen Waith oedd yn nodi pa waith oedd wedi'i gwblhau a pha waith oedd yn y broses o gael ei gwblhau a gofynnodd os oedd yna unrhyw fater yr oedd yr aelodau'n dymuno gwneud sylwadau arno o safbwynt amserlennu a newidiadau. Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd ynglyn â ffurfio a chytuno ar y Rhaglen Waith.

Cododd y Cynghorydd J. A. Roberts bwynt ynglyn ag adran 14 o'r Rhaglen oedd yn dweud: *"Yn amodol ar ganlyniad gwaith ymgynghori gydag Aelodau, gwneud argymhellion i fwy o wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor (yn cynnwys gwybodaeth am gostau lwfansau, cofnodion presenoldeb ac oriau hyfforddi."* Dywedodd y Cynghorydd Roberts nad oedd ganddo unrhyw broblem ynglyn â chyhoeddi lwfansau a threuliau, ond roedd yn credu ei bod yn bwysig bod ffigyrau mynychu'n cael ei roi mewn canrannau. Rhoddodd engraifft pryd y byddai Aelod sydd ar y Pwyllgor Gwaith yn mynychu cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos tra na fyddai galw am i Aelod mainc gefn fynychu cyfarfodydd ddwy waith y mis. Byddai cyflwyno'r ffigyrau mewn canrannau yn gallu bod yn gamarweiniol.

Tynnodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro sylw at Eitem 13(ii) o'r cyfarfod anffurfiol nesaf o'r Pwyllgor Safonau lle bydd y mater hwn yn cael ei drafod. Dywedodd bod adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw ac y byddai safbwyntiau'r Cynghorydd Roberts yn cael eu hystyried.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r rhaglen waith a nodi'r cynnwys.**

## 5 DATGANIADAU O RODDION A CHROESO

Cyflwynwyd - y dogfennau yng nghyswllt y Gofrestr, Ffurflenni Datgan a Matrics.

Dywedodd y Cadeirydd bod y mater hwn eisoes wedi cael ei drafod yn y cyfarfod anffurfiol diwethaf o'r Pwyllgor Safonau cyn i Aelodau etholedig ddod yn Aelodau o'r Pwyllgor. Dywedodd mai ei farn ef oedd y dylai gwerth y rhoddion fyddai'n cael eu derbyn fod yn ddim. Fe delir tâl i Gynghorwyr ac fe ellir gweld derbyn rhoddion fel gosod cynsail. Roedd yn credu ei bod yn bosibl codi proffil y person oedd yn rhoddi'r rhodd ac felly roi iddynt fantais annheg.

Gofynnodd yr Athro Robin Grove White am safbwyntiau'r Cynghorwyr. Roedd y Cynghorydd J. Arwel Roberts am atgoffa'r Aelodau bod Peter Keith- Lucas wedi nodi y byddai'n dymuno gweld y cyfyngiad presennol o £20 yn cael ei gynyddu. Ni allai'r Cynghorydd Roberts weld unrhyw broblem mewn cadw'r swm o £20. Roedd y Cynghorydd Ieuan Williams yn cytuno gyda'r Cadeirydd na ddylai'r Aelodau dderbyn

unrhyw roddion a bod yn rhaid iddynt gael eu gweld i fod yn wynach na gwyn.  Cyfeiriodd at y costau gweinyddol o gadw cofnodion o roddion bychan.

Rhoddodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro esiamplau o staff oedd wedi derbyn rhoddion (cyfyngiad derbyniol i staff ar hyn o bryd yw £10) lle y bu'n rhaid dychwelyd y rhoddion hynny.  Dywedodd y byddai papurau Peter Keith Lucas ar "Protocol ar gyfer Rhoddion a Chroeso" yn cael eu trafod yn y cyfarfod anffurfiol nesaf.

**CYTUNWYD y byddai'r mater hwn yn cael ei gynnwys ar raglen y cyfarfod anffurfiol nesaf.**

## 6 FFURFLEN DATGANIAD A CHOFRESTRU DIDDORDEB PERSONOL

Cyflwynwyd i'w gymeradwyo - drafft terfynol o'r ffurflen uchod.  Roedd yr Aelodau'n croesawu'r fersiwn newydd gan eu bod yn credu ei bod yn fwy clir ac yn ddefnyddiwr-gyfeillgar.  Bydd fersiynau cefn wrth gefn o'r ffurflen yn cael eu printio a byddant ar gael o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Ffurflen Datgan a Chofrestru Diddordeb Personol oedd newydd ei dylunio a chadarnhau ei defnyddio o 1 Gorffennaf 2010.**

## 7 GWEITHGOR DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd i'w ystyried - adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r Gweithgor Datblygu Aelod.

Roedd y grwp wedi cyfarfod ddwywaith a threfnwyd iddo gyfarfod am y drydedd waith ar 6 Gorffennaf 2010.  Ymysg yr aelodau roedd tri aelod etholedig, gydag un ohonynt yn Gadeirydd ac yn Bencampwr Aelodau Etholedig, cynrychiolydd o'r Pwyllgor Safonau ynghyd â swyddogion perthnasol yn cynnwys Swyddog Monitro'r Cyngor a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Cefnogol o'r WLGA.

Roedd y ddau gyfarfod wedi darparu mewnbwn defnyddiol gan yr holl gyfranogwyr lle cafwyd agwedd gadarnhaol tuag at weithio gyda'n gilydd i sicrhau gwelliant.  Dywedodd y Swyddog bod yr adborth gafwyd yn dilyn yr hyfforddiant cychwynnol sydd wedi'i gynnal yn gadarnhaol iawn.  Rhai o'r materion fydd yn cael eu trafod fydd y Cod Ymddygiad, rôl yr Aelod Modern, Sgriwtini ac yn y blaen.  Bydd atborth llawn yn cael ei roddi unwaith y bydd y rhaglen wedi'i chwblhau.  Dywedodd bod y costau wedi cael eu cefnogi gan y WLGA fel rhan o'r broses adfer, ond, o fis Medi 2010 bydd gan y grwp ei gyllideb ei hun ond bydd bid am gyllid ychwanegol yn cael ei chyflwyno i gefnogi'r grwp.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Athro Robin Grove White, cadarnhaodd y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad y gallai cynrychiolydd y Pwyllgor Safonau ar y Grwp adrodd yn ôl i weddill yr Aelodau yn eu cyfarfodydd anffurfiol.  Unwaith y bydd y disgrifiadau rôl yn eu lle bydd yn haws nodi anghenion a llenwi unrhyw fylchau.  Bydd atodlen yn cael ei chynhyrchu yn y man, ac yn y cyfamser, bydd Ms Sue Morris yn dod â safbwyntiau Aelodau'r Pwyllgor Safonau i'r Grwp.  Mae'r i'r Grwp rôl barhaol gyda'r nod eithaf o gyrraedd statws Siarter Aelod.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams y gallai weld y Grwp yn brysur yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol gyda'r angen i roi hyfforddiant i unrhyw aelodau newydd.  Dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad y byddai'n gobeithio y byddai'r Grwp yn cyfarfod yn fwy anaml yn y tymor hir, ond fe fyddai yna angen i fonitro cynnydd, datblygiad ac i adolygu.  Dywedodd y bydd rhaglen flynyddol yn cael eu llunio yn y man.  Dywedodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro bod y Gweithgor Datblygu Aelod yn awr yn ffurfio rhan o ffabrig y Cyngor. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y byddai'r Grwp yn un o rhai mwyaf pwysig ar y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnwys a llongyfarch Aelodau'r Grwp ar y cynnydd wnaed hyd yma.**

## 8 HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd i'w ystyried - atborth ar gyflwyniad Peter Keith-Lucas ynghyd â'i effaith ar raglen waith nesaf y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro bod yr holl bwyntiau oedd wedi'u codi yn y sesiwn hyfforddiant wedi cael eu nodi a'u cynnwys, er gwybodaeth y Pwyllgor Safonau. Nododd y Swyddog Hyfforddiant a Datblygiad nad oedd y cyfan o'r nifer o bwyntiau a godwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant ac y gallai rhai materion gael eu hystyried fel sesiynau rhannu gwybodaeth. Roedd yn credu bod blaenoriaethu'n bwysig ac y dylai hyfforddiant ffitio i mewn gyda gofynion y Rhaglen Waith a bod angen ystyried elfennau cost ac amser yn yr ystyriaethau hynny.

Roedd yr Athro Robin Grove White yn credu y dylai unigolion oedd yn bwriadu sefyll fel Cynghorwyr ddysgu am eu rôl fel Cynghorydd ar y Cyngor Sir yn hytrach nag Aelodau Ward Leol. Roedd y Swyddog Hyfforddiant a Datblygiad yn credu y byddai'r disgrifwyr rôl yn helpu i roi cynrychiolaeth deg o'r rôl. Dywedodd Mrs Pamela Moore ei bod yn bwysig i Aelodau tebygol fod gyda'r holl wybodaeth, ac y byddai hyn yn debyg i unigolyn fyddai'n gwneud cais am swydd lle byddai swydd ddisgrifiad yn dod ynghyd â'r ffurflen gais. Cadarnhaodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro y dylid dweud wrth Aelodau tebygol am eu cyfrifoldebau ariannol a chyfreithiol ymlaen llaw. Dywedodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts na all y Cyngor ddweud pwy sy'n sefyll fel Aelod na dweud wrthynt beth y dylent eu darllen. At hynny, roedd yn ymwybodol y gallai Aelodau Ward gael eu hethol ar un pwnc (e.e. gwrthwynebu hela) ac na fyddent wedi dangos ond ychydig iawn o ddiddordeb mewn unrhyw agwedd arall o gyfrifoldeb Cynghorydd hyd nes y byddai ef/hi wedi ei ethol. Y teimlad cyffredinol oedd y byddai cael gwybodaeth ar gael ymlaen llaw yn fantais ac yn arfer dda.

Cyfeiriodd yr Athro R. Grove White iddo gael cyfarfod gyda Swyddog Monitro o Awdurdod arall a chyfarfod blynyddol gyda'r Pwyllgor Archwilio. Cadarnhawyd y byddai'r mater cyntaf hwn yn cael ei ychwanegu i'r papur a bod yr ail bwynt eisoes yn y ddogfen yn 5.1.

Dywedodd y Cynghorydd J. Arwel Roberts bod y rhan fwyaf o'r materion a godwyd ynglyn â pholisi a gweithdrefnau eisoes wedi'u trafod yn y Grwp Rhaglen Waith Aelodau. Cadarnhaodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro nad oedd y ddogfen hon ond yn rhywbeth i atgoffa pawb am y rhaglen waith.

Dywedodd Mrs Pamela Moore y dylid anfon nodyn blynyddol i atgoffa ynglyn â chofrestr diddordebau'r Aelodau a gofynnodd os oedd hyn wedi cael ei wneud y flwyddyn hon.

**CYTUNWYD y byddai nodyn atgoffa'n cael ei anfon i Aelodau ar unwaith ac wedi hynny ym mis Mai ymhob blwyddyn.**

## 9 LLYTHYR GAN GYNGOR TREF CAERGYBI

Cyflwynwyd ac ystyriwyd - llythyr gan Gyngor Tref Caergybi dyddiedig 6 Mai 2010 yn gofyn a ellid trefnu sesiynau hyfforddi i Aelodau Cyngor Tref Caergybi ar y Cod Ymddygiad.

Roedd y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad am atgoffa'r Aelodau bod gan y Pwyllgor Safonau gyfrifoldeb i ddarparu hyfforddiant i Gynghorau Tref a Chymuned, ond nid oes unrhyw gyllideb penodol wedi'i ddarparu i'r pwrpas hwnnw. Dywedodd bod gan Un Llais Cymru fodiwl penodol ar y Cod Ymddygiad ac y byddai hwnnw'n addas i swyddogion ei ddarparu ac y dylai fod yn barod i'w ddefnyddio erbyn Rhagfyr 2010. Roedd yn credu mai'r peth doeth i'w wneud fyddai gwneud yr hyfforddiant yn agored i gynrychiolwyr yr holl Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd yn cael yr argraff nad oedd yr hyfforddiant hwn yn flaenoriaeth fawr ac y gellid ei drefnu ar gyfer cyfnod hyd at Ragfyr 2010.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddogfen luniwyd gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol ar y Cod Ymddygiad ac argymhellodd y byddai hwn yn bwynt cychwyn da i'r Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y ddogfen yn rhoi dadansoddiad o'r Cod gan rhoi esiamplau oedd yn berthnasol i adrannau arbennig. Dywedodd Mr. Raymond Evans ei fod yn tybio bod yr holl Gynghorau Tref a Chymuned wedi derbyn copi o'r ddogfen. Ychwanegodd nad oedd Cyngor Tref Caergybi wedi tanysgrifio i fod yn Aelodau o Un Llais Cymru, ond, dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad na fyddai hyn yn achosi unrhyw broblem.

Dywedodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro ei fod wedi derbyn cais gan Glercod dau Gyngor Cymuned yn gofyn am gyfarwyddyd ar y Cod Ymddygiad a'i fod wedi dweud wrthynt bod yna gyswllt ar y We i'r ddogfen.

**PENDERFYNWYD bod Cyfreithiwr y Swyddog Monitro'n ysgrifennu i'r holl Glercod y Cynghorau Cymuned yn dweud wrthynt bod cyfarwyddyd yr Ombwdsmon mewn bodolaeth a'i fod ar gael ar y rhyngrwyd. Hefyd, byddai'n dweud wrthynt y bydd hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei drefnu trwy Un Llais Cymru pan fydd ar gael.**

## 10 CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CYMRU GYFAN

Cyflwynwyd e-bost oedd wedi'i dderbyn gan Kate Berry o Gyngor Caerdydd a'i nodi. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y materion oedd yn cael eu codi yn y llythyr ac i gyflwyno unrhyw awgrymiadau y byddent yn dymuno eu gwneud yn y cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 13 Gorffennaf.

## 11 ADFER

Cyflwynwyd er gwybodaeth - adroddiad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim oedd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 11 Mai 2010.

Soniodd Cyfreithiwr y Swyddog Monitro am nifer o faterion sy'n cael sylw gan y Swyddogion a sicrhaodd yr Aelodau bod swm mawr o waith yn mynd ymlaen.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys a'r cynnydd a wnaed hyd yma.**

## 12 CYFARFOD FFURFIOL NESAF

Nododd yr Aelodau y bydd y cyfarfod ffurfiol nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Medi 2010 ac wedi hynny ar 14 Rhagfyr 2010.

## 13 CYFARFOD ANFFURFIOL

Nododd yr Aelodau y bydd y cyfarfod anffurfiol nesaf yn cael ei gynnal ar 13 Gorffennaf 2010 pryd y bydd y materion canlynol yn cael eu trafod:-

a. Matrics o gwynion i'r Ombwdsmon;
b. Gwybodaeth gyhoeddwyd ynglyn ag Aelodau;
c. Rhoddion a Chroeso;
d. Dyddiadau cyfarfodydd anffurfiol o Hydref 2010;
e. Cynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru Gyfan;
f. Llythyr gan Carl Sargeant;
g. Rhaglen Cyfarfod Ffurfiol.

**MR. JEFFREY COTTERELL**
**CADEIRYDD**